

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
22/01/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Effective Monitoring of Education

Q11 Sandy Mewies: What steps is the Welsh Assembly Government taking to ensure that the education of people of all ages is effectively monitored? OAQ(3)0619(FM)

The First Minister: The Assembly Government collects and publishes data on the characteristics and achievements of all learners. It monitors participation and attainment, and undertakes research and evaluation into the effectiveness of all our education programmes. Regular independent inspection is undertaken by Estyn on the quality of education and standards achieved by learners.

Policy Objectives in Carmarthen West and South Pembrokeshire

Q12 Angela Burns: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policy objectives in Carmarthen West and South Pembrokeshire in 2008? OAQ(3)0614(FM)

The First Minister: We will aim to deliver our 'One Wales' commitments in Carmarthen West and South Pembrokeshire as in other parts of the country. For instance, £4.48 million in school building improvement grant has been awarded for schools in the constituency and tourism will be boosted by the forthcoming opening of the Bluestone project.

Monitro Addysg yn Effeithiol

C11 Sandy Mewies: Pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod addysg pobl o bob oed yn cael ei monitro'n effeithiol? OAQ(3)0619(FM)

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn casglu ac yn cyhoeddi data ar nodweddion pob dysgwr a'r hyn y maent wedi'i gyflawni. Mae'n monitro lefelau cyfranogiad a chyrraedd, ac yn ymchwilio i effeithiolrwydd ein holl raglenni addysg a'u gwerthuso. Mae Estyn yn cynnal arolygiadau annibynnol rheolaidd o ansawdd addysg a'r safonau mae dysgwyr yn eu cyrraedd.

Amcanion polisi yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

C12 Angela Burns: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro yn 2008? OAQ(3)0614(FM)

Y Prif Weinidog: Byddwn yn ceisio gweithredu ar ymrwymadau 'Cymru'n Un' yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro fel mewn rhannau eraill o'r wlad. Er enghraifft, mae £4.48 million o'r grant gwella adeiladau ysgolion wedi'i ddyfarnu i ysgolion yn yr etholaeth a chaiff twristiaeth ei hyrwyddo yn sgîl prosiect Bluestone a gaiff ei lansio maes o law.

Promoting Innovation and Technology

Q13 David Melding: Will the First Minister make a statement on measures to promote innovation and technology in Wales? OAQ(3)0622(FM)

The First Minister: The Assembly Government provides support via a dedicated, pan-Wales technology and innovation team within the Department for the Economy and Transport. Initiatives include innovation grants, centres of excellence, IP support and the technium network. We also continue to work closely with academia to facilitate knowledge transfer, maximising the economic impact of our universities and colleges.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(3)0631(FM), yn ôl.
Question 14, OAQ(3)0631(FM), was withdrawn.*

Onshore Wind Farms in North Wales

Q15 Mark Isherwood: Will the First Minister make a statement on onshore wind farms in north Wales? OAQ(3)06625(FM)

The First Minister: Our sustainable renewable energy route-map, which we will publish shortly, will highlight our aspiration to exploit more effectively Wales's considerable renewable energy resources. On-shore windfarms in north Wales, and throughout Wales, will make an essential contribution to our drive to increase our renewable energy production.

Hyrwyddo Arloesedd a Thechnoleg

C13 David Melding: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fesurau i hyrwyddo arloesedd a thechnoleg yng Nghymru? OAQ(3)0622(FM)

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cymorth drwy dîm technoleg ac arloesi sydd wedi'i neilltuo i weithredu ledled Cymru o fewn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Ymhlith y mentrau mae grantiau arloesi, canolfannau rhagoriaeth, cymorth IP a rhwydwaith technium. Yr ydym hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â'r byd academiaidd i hwyluso'r broses o drosglwyddo gwybodaeth, gan sicrhau effaith economaidd fwyaf posibl ein prifysgolion a'n colegau.

Ffermydd Gwynt ar y Tir yn y Gogledd

C15 Mark Isherwood: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ffermydd gwynt ar y tir yn y gogledd? OAQ(3)06625(FM)

Y Prif Weinidog: Bydd ein map llwybr ynni adnewyddadwy cynaliadwy, y byddwn yn ei gyhoeddi cyn hir, yn tynnu sylw at ein nod o ddefnyddio adnoddau ynni adnewyddadwy sylweddol Cymru yn fwy effeithiol. Bydd ffermydd gwynt ar y tir yn y gogledd, a ledled Cymru, yn gwneud cyfraniad hanfodol i'n hymgyrch i gynyddu lefel yr ynni adnewyddadwy yr ydym yn ei gynhyrchu.